

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd Nos Fercher 10.05.17 yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Presennol: Geraint Edwards (Cadeirydd), Dylan Thomas, Huw Davies, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Ymddiheuriadau:** Ian Williams, Geraint Micah.

2. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r **cyfarfod blynyddol**, a thrafodwyd swyddi newydd am 2017-18.

Cadeirydd: Geraint Edwards wedi cytuno i fod yn Gadeirydd am flwyddyn arall.

Is-gadeirydd: Ian Williams → (Clerc i gysylltu ag Ian i gadarnhau nad oes ganddo wrthwynebiad i hyn).

Cynrychiolwyr: **Un Llais Cymru** → Dylan Thomas a Kevin Goodchild. **Pig yr Allt** → Geraint Edwards.

Heddlu → Ian Williams (Ian wedi cytuno i hyn yn flaenorol).

Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn → penderfynu ar hyn ar ôl cyfethol aelodau newydd.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 08.03.17 fel rhai cywir.

Cynnig – Keith Carroll **Eilio** – Huw Davies **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (08.03.17):**

a) **Canlyniadau Etholiad Cyngor Cymuned Llangelynnin - 04.05.17**

- Yn dilyn yr etholiad 04.05.17, derbyniwyd rhybudd gan Swyddog Canlyniadau Cyngor Gwynedd yn datgan y personau sydd wedi eu hethol yn ddiwrthwynebiad fel Cynghorwyr Cymuned plwyf Llangelynnin - (gwybodaeth a manylion wedi eu harddangos yn gyhoeddus).

- Hefyd, derbyniwyd rhybudd yn datgan fod Louise Hughes wedi eu hethol yn ddiwrthwynebiad fel Cynghorydd Sirol dros ranbarth etholiadol Llangelynnin.

- **Gan fod tair sedd wâg yn dilyn yr etholiad, fe fydd yn ofynnol i'r Cyngor Cymuned gyfethol tri aelod newydd**, felly bydd rhybudd cyhoeddus yn datgan bwriad y Cyngor Cymuned i gyfethol ... **"Hysbysiad o Gyfethol"** ... yn cael eu rhoi ar yr hysbysfwrdd yn Llwyngwril a Rhoslefain ac ar wefan y Cyngor Cymuned.

b) **"Datganiad Derbyn Swydd"** wedi eu llofnodi gan y saith aelod a gafodd eu hethol yn ddiwrthwynebiad ar 04.05.17.

c) **Materion Cymunedol** - dim ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â sylwadau Mis Mawrth

Penderfyniad → ail yrru'r sylwadau i Benarlâg a Chaernarfon.

d) **Hysbysfwrdd yn Llwyngwril** - Derbyniwyd dau bris.

Penderfyniad → cynnig y gwaith i Paul Cruickshank. Cysylltu â Mark O'Dea i ddiolch iddo am gyflwyno ei bris.

5. **Gohebiaeth:**

a) CAB – llythyr wedi ei dderbyn yn diolch i'r Cyngor Cymuned am y rhodd o £25.00.

b) Mudiad Ffermwrwr Ifanc Meirionnydd – llythyr wedi ei dderbyn yn diolch i'r Cyngor Cymuned am y rhodd o £25.00.

c) ROSPA – archwiliad ar y Cae Chwarae yn Llwyngwril wedi ei drefnu ar gyfer Mis Mehefin.

d) Cyngor Gwynedd - hysbyseb yn cadarnhau fod £233.14 wedi ei glustnodi ar gyfer cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus (yng nghategori 1 a 2) ym mhlwyf Llangelynnin am y flwyddyn 2017-18.

e) Parc Cenedlaethol Eryri - gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned fynychu eu cyfarfod yng Nghoed y Brenin, Dolgellau ar y 13.06.17, neu Neuadd Dyfi, Aberdyfi ar y 19.06.17 am 6.30yh.

f) Wales & West Utilities - swyddog o'r cwmni yn cynnig dod i siarad yn y gymuned amdan "carbon monoxide awareness" a'r gwasanaethau eraill maent yn darparu.

Penderfyniad → cysylltu gyda nhw i'w gwneud yn ymwybodol nad oes "mains gas" yn y pentref, a gweld os ydynt yn dal yn awyddus i ddod yma.

g) Nodwyd y gohebiaeth gan Karen Shellis yn y cyfarfod.

6. **Materion Cynllunio:**

a) **Cais: NP/69/337B - Tir Cyfagos i Maes Lledfan, Rhoslefain** - cais i godi stablau a chreu mynedfa newydd ac iard → dim sylwadau gan y Cyngor Cymuned i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

b) **Cais: NP5/69/LU394A – Wendy’s Llwyngwril** - cais am Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon (Defnydd Presennol) i ddefnyddio'r eiddo fel annedd
Parc Cenedlaethol Eryri yn gofyn am unrhyw wybodaeth bersonol gan Gyngorwyr unigol o ddefnydd y tir yma yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

7. **Materion Ariannol:** Adolygiad ariannol wedi ei wneud.

Derbyniwyd Adroddiadau Mis Mawrth a Mis Ebrill 2017 yn gywir.

Cynnig – Kevin Goodchild **Eilio** – Huw Davies **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.

- a) Praesept wedi ei dderbyn (am 6 mis) = **£3,900.00.**
- b) Ffurflen ad-daliad TAW 2016-17 wedi ei pharatoi i'w gyrru i'r Swyddfa Dreth (HMRC) = **£241.30**
- c) AON – polisi yswiriant y Cyngor Cymuned i gael ei adnewyddu erbyn 01.06.17
Penderfyniad → pawb yn gytûn i adnewyddu'r polisi hefo AON, felly anfon sic eiddynt = **£843.06**
- d) Rhent y Ganolfan yn ddyledus am y flwyddyn, felly anfon sic i bwyllgor Y Ganolfan = **£100.00**
- e) Anfoneb wedi ei dderbyn am archwilio cyfrifon y Cyngor Cymuned am y flwyddyn 2015-16 = **£69.00**
→ sic i'w anfon i J D Roberts.
- f) Anfoneb wedi ei dderbyn gan Paul Cruickshank am y coed i wneud yr hysbysfwrdd = **£329.65**
- g) Adolygiad o gyflog a chosta'r clerc:

❖ **Geraint Edwards wedi datgan diddordeb, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo'r ffurflen addas, a heb gymerid rhan yn y drafodaeth nag y penderfyniad yma.**

Gweddill o'r aelodau wedi trafod a phawb yn gytûn i gynnig cynnydd o 2½% ar gyflog a chosta presennol y clerc

Penderfyniad → Cyflog = £800.00 Cyfieithu = £100.00 Costa = £200.00

Cynnydd o 2½% ar y cyflog a chosta = £27.50 = **£1,127.50.**

PAYE i gael ei dalu i'r HMRC (20% o'r cyflog) = **£185.50**

Cyflog a PAYE i gael ei dalu dwywaith y flwyddyn ag i gael ei adolygu yn flynyddol.

Cynnig: Kevin Goodchild **Eilio:** Huw Davies.

Cyfrifon y Cyngor Cymuned – 2016 - 2017:

- Derbyniwyd Cyfrifon y Cyngor Cymuned am y flwyddyn yn diwedd 31.03.17 yn gywir.
Cynnig – Kevin Goodchild **Eilio** – Huw Davies **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.
- Ffurflen Flynyddol 2016-17, wedi ei pharatoi yn barod i'r Archwiliad Mewnol ar y 31.05.17.
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 + 2) wedi eu cwblhau gyda'r aelodau.
- Penodwyd Mr J D Roberts yn Archwilydd Mewnol i archwilio cyfrifon y Cyngor Cymuned eisoes (cyfarfod 11.05.16).
- Cwmni BDO LLP wedi eu penodi i wneud yr Archwiliad Allanol Blynyddol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y 03.07.17.
- Hysbysiad o hawliau'r etholwyr â'r Archwiliad i'w arddangos yn gyhoeddus yn Llwyngwril, Rhoslefain ac ar wefan y Cyngor Cymuned rhwng 22.05.17 tan 04.06.17.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Ddim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

- a) Keith Carroll yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned yng ngarddwest Palas Buckingham ar y 16.05.17.
- b) Cyngorwyr yn cwrdd i glirio'r Cae Chwarae nos Fercher 17.05.17 am 6.30pm.
- c) Er gwybodaeth - Geraint Micah wedi torri'r llwybrau mis yn gynt eleni.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 14.06.17 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

Arwyddwyd

Cadeirydd **Dyddiad**